# PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU NEWID SEFYDLIADOL
# 17 MEDI 2018

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Newid Sefydliadol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn adeilad Gofal a Thrwsio Gogledd-ddwyrain Cymru, Rowley's Drive, Shotton, Glannau Dyfrdwy ddydd Llun, 17 Medi 2018.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Dave Mackie (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Sean Bibby, Geoff Collett, Ian Dunbar, Mared Eastwood, Dennis Hutchinson, Tudor Jones, Brian Lloyd, Paul Shotton, Ralph Small, Andy Williams a David Wisinger

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Marion Bateman

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Aaron Shotton, yr Arweinydd ac Aelod Cabinet Cyllid; y Cynghorydd Christine Jones, Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol; y Cynghorydd Billy Mullin, Aelod Cabinet Rheoli Corfforaethol ac Asedau; Prif Swyddog (y Gwasanaethau Cymdeithasol); Uwch-reolwr Plant a'r Gweithlu; Rheolwr Cyflawni Rhaglenni, Cwsmeriaid Digidol a Gwytnwch Cymunedol; Uwch-arweinydd Cymorth i Deuluoedd; Rheolwr Cyllid, Gwasanaethau Cymunedol; a'r Rheolwr Asedau

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 18. SYLWADAU AGORIADOL

Fel Trysorydd Gofal a Thrwsio Gogledd-ddwyrain Cymru, diolchodd y Cynghorydd Tudor Jones am gefnogaeth y Cyngor gan dynnu sylw at y wybodaeth a oedd i'w gweld yn dangos y gwaith a wnaed gan Ofal a Thrwsio.

## 19. DATGAN CYSYLLTIADAU

Datganodd y Cynghorydd Tudor Jones gysylltiad ag Eitemau 4 (Gwytnwch Cymunedol) a 5 (Trosglwyddo Asedau Cymunedol - Trosolwg ar Gynnydd) ar y Rhaglen fel Cadeirydd Canolfan Hamdden Treffynnon.

## 20. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2018.

Materion yn Codi

Cofnod rhif 13: Symud o Neuadd y Sir i Unity House - mewn ymateb i sylwadau gan y Cynghorydd Dunbar ar le parcio a oedd ar gael, dywedodd y Prif Swyddog bod digon o leoedd ar gyfer nifer y gweithwyr a oedd i fod i symud. Atgoffawyd y Pwyllgor gan y Cynghorydd Wisinger o'i gais i'r Pwyllgor gael ymweld â safle Unity House.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

**21. GWYTNWCH CYMUNEDOL**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) yr adroddiad i roi diweddariad i'r Aelodau ar gynnydd mewn meysydd gwaith allweddol mewn perthynas â blaenoriaeth Cymunedau Gwydn a oedd yn rhan o'r thema 'Cyngor Cysylltiedig' yng Nghynllun y Cyngor. Roedd cyfrifoldeb dros hyn bellach yn rhan o bortffolio'r Prif Swyddog ar ôl i Ian Bancroft adael.

Roedd twf y sector cyhoeddus trwy ddatblygu mentrau cymdeithasol a llwyddiant Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol a Modelau Cyflawni Amgen yn bwysig i helpu cymunedau i fod yn fwy gwydn a hunangynhaliol. Rhoddwyd trosolwg o chwe thema Gwytnwch Cymunedol yr oedd camau gweithredu wedi'u nodi arnynt yng Nghynllun Cyflawni Lles 2018-23 y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cyflwynwyd y Pwyllgor i Cher Lewney, y Rheolwr Cyflawni Rhaglenni – Cwsmeriaid Digidol a Gwytnwch Cymunedol, a ddosbarthodd sleidiau cyflwyniad a oedd yn nodi'r prif egwyddorion a chamau gweithredu ar gyfer pob thema. Byddai'r rhain yn cael eu hategu drwy ddatblygu fframweithiau gwerthuso i helpu i reoli gwytnwch cymunedol ar draws y Sir.

Darparodd Emma Blacklock, Uwch-arweinydd Cymorth i Deuluoedd, ddiweddariad ar gynnydd o ran gweithgareddau ardal yn Holway a oedd yn galluogi'r Cyngor a'i bartneriaid i ymgysylltu â thrigolion a chael eu barn ar welliannau posib' i'w hystadau. Roedd digwyddiad arall wedi'i gynllunio at ddiwedd y mis i'w gysylltu â 'Diwrnod Mawr y Ddyfrdwy'.

Rhannodd yr Uwch-reolwr (Plant a'r Gweithlu) wybodaeth am ddatblygiad y Rhaglen Arweinyddiaeth a oedd yn y camau cyntaf o gael ei phrofi. Roedd wedi'i bwriadu ar gyfer unigolion a oedd yn gweithio gyda chymunedau i gefnogi sefydliadau'r sector cyhoeddus i gyflawni newid yn llwyddiannus.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd Hutchinson am waith mewn ardaloedd, eglurodd y Prif Swyddog bod tair ardal wedi'i dewis yn seiliedig ar waith a gychwynnwyd yn flaenorol ac y byddai modd ystyried ardaloedd eraill dros amser. Roedd y Cyngor yn arwain rhai o'r themâu ac roedd eraill yn gyfrifoldeb i bartneriaid fel Prifysgol Glyndŵr ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Wrth nodi Gwytnwch Cymunedol fel elfen allweddol o Gynllun y Cyngor, dywedodd y Cynghorydd Aaron Shotton bod enghreifftiau gwych o drosglwyddo asedau cymunedol. Cyfeiriodd at y Cynllun Cyflawni Lles fel templed defnyddiol i roi sicrwydd am y gwaith a oedd yn cael ei wneud er budd y Sir gyfan.

Roedd y Cadeirydd yn cytuno a disgrifiodd y Cynllun fel offeryn defnyddiol i fonitro cynnydd.

Canmolodd y Cynghorydd Paul Shotton y rhaglen Llwglyd dros y Gwyliau a chroesawodd ddatblygu canolfannau bwyd i drechu tlodi bwyd. Mewn ymateb i

sylwadau am bwysigrwydd cysylltiadau ag Iechyd, cyfeiriodd yr Uwch-arweinydd Cymorth i Deuluoedd at hyrwyddo sgrinio iechyd mewn digwyddiadau cymunedol.

Dywedodd y Rheolwr Cyflawni Rhaglenni bod swyddogion y Cyngor yn ymgysylltu â chynrychiolwyr Iechyd i drafod gwasanaethau ar y cyd a chyfeirio at fathau eraill o gymorth fel rhaglenni gweithgareddau cymunedol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Tudor Jones ynglŷn â gweithgarwch yn Holway, eglurwyd bod pob un o'r 406 eiddo wedi derbyn gwybodaeth yn annog trigolion i gymryd rhan yn y gweithgareddau.

Gwnaeth y Cynghorydd Mullin sylw hefyd ar lwyddiant y rhaglen Llwglyd dros y Gwyliau. Dywedodd y Cynghorydd Williams bod y rhaglen wedi'i chyflwyno gyntaf ym Mwcle yn 2016.

Dywedodd y Cynghorydd Aaron Shotton ei bod yn bwysig cydnabod mai amcan y cynllun oedd darparu prydau iach, fforddiadwy i blant – fel roedd erthygl yn y *Guardian* yn nodi. Y cam nesaf oedd dechrau gwaith drwy sefydlu canolfannau bwyd cymunedol.

Ychwanegodd y Cynghorydd Christine Jones bod y thema tlodi bwyd yn cynnwys yr holl grwpiau, gan gynnwys henoed neu rieni sengl a bod cynnydd cyson ar draws Sir y Fflint.

Cyfeiriodd y Prif Swyddog at sleidiau'r cyflwyniad a oedd yn adlewyrchu canlyniadau penodol a'r camau nesaf, gan gydnabod mai 'gwaith ar y gweill' oedd hyn.

Soniodd y Cynghorydd Collett ynglŷn â'r ystod o weithgareddau a oedd ar gael yng Nghanolfan Daniel Owen i fynd i'r afael ag unigedd.

Canmolodd y Cynghorydd Wisinger y manylder a oedd yn yr adroddiad a gofynnodd i werthfawrogiad y Pwyllgor gael ei nodi.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi datblygu Cynllun Gweithredu Gwytnwch Cymunedol; a

(b) Diolch i'r swyddogion am y gwaith manwl a wnaed i lunio'r adroddiad.

## 22. TROSGLWYDDO ASEDAU CYMUNEDOL - TROSOLWG O GYNNYDD

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid (Gwasanaethau Cymunedol) adroddiad yn manylu ar statws pob un o'r 30 Trosglwyddiad Asedau Cymunedol a oedd un ai wedi'u trosglwyddo neu'n agos at gael eu cwblhau.

Nodwyd mai blaenoriaeth y Cyngor oedd sicrhau bod trosglwyddiadau a oedd yn agos at gael eu cwblhau'n cael eu cwblhau a bod y rhai a oedd wedi'u trosglwyddo'n gynaliadwy yn y tymor hir. Rhannwyd gwybodaeth ar y tri cham trosglwyddo a'r gefnogaeth a oedd ar gael i ddod o hyd i broblemau'n gynnar a

lleihau’r risg o fethu. Dywedwyd wrth y Pwyllgor nad oedd unrhyw rai o’r trosglwyddiadau a oedd wedi’u gwneud yn profi anhawster. Roedd gwaith mentrau cymdeithasol yn cynnwys gwirio bod yr holl fentrau cymdeithasol yn iawn er mwyn cefnogi sefydliadau drwy'r broses o drosglwyddo asedau cymunedol.

Rhoddodd y Rheolwr Asedau eglurhad i'r Cynghorydd Hutchinson ynglŷn ag adeilad penodol ym Mwcle. Eglurodd na allai’r broses ond cychwyn ar ôl i sefydliad gyflwyno datganiad o ddiddordeb ac y gallai sefydliadau gael cyllid grant ychwanegol drwy drefniadau prydlesu.

Cydnabu'r Cynghorydd Paul Shotton y trosglwyddiadau asedau cymunedol llwyddiannus a oedd wedi'u cwblhau yn Sir y Fflint.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Tudor Jones at ddau ased a oedd wedi’u trosglwyddo’n gynharach a gofynnodd i’r rhain gael eu hychwanegu at y rhestr o’r rhai a gwblhawyd. Soniodd bod Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol yn faes cyfrifoldeb allweddol a gofynnodd a oedd cymorth swyddog penodol wedi'i neilltuo i sicrhau bod cynnydd yn cael ei fonitro'n ofalus. Dywedodd y Rheolwr Cyllid y byddai’r Prif Swyddog (Tai ac Asedau) yn rhoi ymateb a rhoddodd hithau sicrwydd bod cefnogaeth barhaus i'w chael, gan gynnwys gwiriadau. Atgoffodd y Rheolwr Asedau’r Pwyllgor ynglŷn â’r cymorth annibynnol a oedd yn cael ei ddarparu gan Gyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint i sefydliadau drwy gydol y broses.

Gofynnodd y Cadeirydd i fanylion trosglwyddiad yr ased cymunedol ar gyfer Neuadd Bentref Carmel gael ei ychwanegu at y rhestr, yn dilyn gohebiaeth gan y Cynghorydd Chris Dolphin.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn croesawu'r gwaith a wnaed a’r cymorth a roddwyd i sefydliadau drwy'r rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol.

## 23. RHAGLEN GWAITH I’R DYFODOL

Cyflwynodd yr Hwylusydd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol gyfredol a dywedodd efallai y byddai angen cyfarfod arbennig i ystyried dewisiadau Cam 1 ar gyfer cyllideb 2019/20, gan ddibynnu ar ganlyniad y gweithdai i Aelodau a fyddai'n cael eu cynnal yn fuan.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol fel y'i cyflwynwyd; ac

(b) Awdurdodi’r Hwylusydd Trosolwg a Chraffu, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio’r Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

## 24. AELODAU'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 11.15am)

..............................

**Y Cadeirydd**